




**CYNLLUNIO STRATEGOL A'R AMGYLCHEDD**

Taflen ymgynghorol i ddeiliald ty
Diweddariad Gorffennaf 2007

# ARDALOEDD CADWRAETH



## GWYBODAETH CYFFREDINOL

CAERDYDD

CARDIFF
CAERDYDD

# byw mewn **ardal cadwraeth**

## Beth yw Ardal Gadwraeth?

Ardal a ddynodir gan y Cyngor fel ardal o ddiddordeb archeolegol neu hanesyddol arbennig yw Ardal Gadwraeth. Mae dynodi ardal gadwraeth yn galluogi'r Cyngor i fonitro ac arwain newid ac i sicrhau bod cymeriad yr ardal yn cael ei amddiffyn.

Gwneir y penderfyniad i ddynodi Ardal Gadwraeth ar ôl gwerthuso ac asesu'r ardal.

Ceir 27 Ardal Gadwraeth yng Nghaerdydd. Maent yn amrywio'n helaeth o ran maint a chymeriad ac maent yn amrywio o bentrefi Sain Ffagan a Llaneirwg i faestrefi Edwardaidd diweddar. Gellir cael mwy o wybodaeth ar Wefan Cyngor Caerdydd
www.cardiff.gov.uk


Nid yn unig y mae cymeriad Ardal Gadwraeth yn cael ei greu gan adeiladau unigol, ond hefyd gan grwpiau o adeiladau a pherthynas ac ansawdd yr ardal rhyngddynt. Mae coed, ansawdd tirlunio, cynllun y ffordd a golygfeydd y stryd oll yn cyfrannu at gymeriad ac ansawdd yr ardal.

## Beth yw'r Manteision?

Mae cymeriad hanesyddol yn helpu i ffurfio ein hymdeimlad o le a hunaniaeth. Mae'n ychwanegu at ansawdd bywyd ac yn cyfrannu at ddatblygiad dinas gynaliadwy.

Mae dynodi Ardal Gadwraeth yn galluogi pawb i ddeall arwyddocâd ardal hanesyddol, ac yn helpu i hysbysu'r ffordd y mae'n cael ei gynnal a sut mae penderfyniadau cynllunio'n cael eu gwneud.

Cadarnhaer a amlygir dynodiad yr arwyddocâd hanesyddol. Mae gan nifer o adeiladau ansawdd archeolegol a chrefftwaith na cheir ei debyg heddiw, ac sy'n cyfrannu at gymeriad unigryw ardal. Mae dynodi yn sicrhau y gellir amddiffyn cymeriad arbennig yr ardal.


## Beth a olygir wrth Amddiffyn

**Mae Ardaloedd Cadwraeth yn cael eu dynodi a'u hamddiffyn gan y Ddeddf Cynllunio Tref a Gwlad (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Mae amddiffyn statudol a geir gan ddynodi yn cynnwys:**

- Dyletswydd ar awdurdodau cynllunio lleol i baratoi cynigion ar gyfer cadw a gwella Ardaloedd Cadwraeth, ac ystyried yn arbennig y cynigion sy'n affeithio eu cymeriad.

- Rheoli dymchwel - efallai bydd angen Caniatâd Ardal Gadwraeth ar gyfer dymchwel adeilad neu strwythur yn gyfan gwbl neu'n sylweddol. Os ystyrir dymchwel adeilad yna dylid cysylltu â'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

- Rheolaethau cynllunio arbennig ar gyfer gwaith penodol, na fyddai fel rheol angen caniatâd cynllunio. Maent yn cynnwys dysglau lloeren, neu offer telathrebu arall, a newidiadau i arwynebau waliau.



## Coed

Mae'r holl goed mewn Ardaloedd Cadwraeth (oni bai am rai bach) yn cael eu hamddiffyn). Dylai perchnogion a chymdogion coed fod yn ymwybodol bod y rheolaethau nid yn unig yn ymwneud â thorri coed, ond hefyd o ran tocio canghennau neu wreiddiau, a gweithredoedd megis newid lefelau daear neu greu arwynebau caled wrth ymyl coed.

Os ydych yn cynllunio unrhyw waith ar goed, bydd angen i chi edrych ar ei statws â'r Swyddogion Cadwraeth Coed â Chynllunio Strategol, a chyflwyno'r cais priodol. Ni fydd unrhyw gais yn cael ei wrthod yn afresymol, ac nid oes ffi ar gyfer ceisiadau felly. Os yw cynnig datblygiad yn effeithio ar goed, bydd y cais cynllunio yn wynebu'r materion coed, ac nid oes angen cais coed ar wahân.

Mae coed yn cyfrannu'n arbennig at gymeriad Ardaloedd Cadwraeth Caerdydd a dyma pam eu bod yn dibynnu ar reolaethau cynllunio arbennig. Am fwy o gyngor ar goed yn eich ardal cysylltwch â'r swyddogion cadwraeth coed ar (029) 2087 3189





## datblygiad mewn ardaloedd cadwraeth


Er mwyn sicrhau bod ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol yn aros yn arbennig, mae nifer o bolisïau ar waith i helpu i arwain datblygiad newydd.

Mae polisïau ar gyfer diogelu ardaloedd cadwraeth ac ar gyfer sicrhau dyluniad da yn cael eu cadw o fewn y Cynllun Lleol mabwysiedig a'r Cynllun Datblygu Unedol wedi'i adneuo. Mae'r dogfennau hyn yn gosod fframwaith ar gyfer polisi cynllunio yng Nghaerdydd. Ymhlith y polisïau perthnasol sy'n ymwneud â diogelu Ardaloedd Cadwraeth mae Polisi 3 o'r Cynllun Lleol mabwysiedig a Pholisi 2.53 o'r Cynllun Datblygu Unedol wedi'i adneuo. Mae'r rhain ond yn caniatáu datblygiad mewn Ardaloedd Cadwraeth a fydd "yn cadw neu wella cymeriad a golwg yr ardal".

Ymhlith y polisïau perthnasol ar gyfer sicrhau dyluniad da mae Polisi 11 o'r Cynllun Lleol mabwysiedig a Pholisi 2.20 o'r Cynllun Datblygu Unedol wedi'i adneuo. Mae'r rhain yn gofyn bod pob datblygiad newydd yn y ddinas o "ddyluniad da, er mwyn rhoi ystyriaeth gywir i raddfa a chymeriad yr amgylchedd o amgylch ac i beidio ag effeithio'n andwyol ar ansawdd esthetig yr ardal."

Dylai ceisiadau cynllunio yn yr Ardaloedd Cadwraeth gael eu cefnogi gyda darluniau manwl a chyflawn a, lle bo'n angenrheidiol cynigion tirlunio manwl. Mae hyn yn galluogi asesiad cywir o'r cais a'i effaith ar yr Ardal Gadwraeth. Ni fydd amlinelliad caniatâd cynllunio fel arfer yn cael ei roi ar gyfer datblygiadau mewn Ardaloedd Cadwraeth.

# Ardaloedd Cadwraeth




1 Heol Caerdydd
2 Parc Cathays
3 Ffordd yr Eglwys Gadeiriol
4 Heol Siarl
5 Ffordd Churchill
6 Church Road, Yr Eglwys Newydd
7 Conway Road
8 Gwaelod-y-Garth
9 Cwrt Insole
10 Llandaff
11 Melingriffith
12 Cwrt Mynydd Stuart
13 Stryd Oakfield
14 Pentyrch (Craig-y-Parc)
15 Pentyrch (St Catwg)
16 Pen Pier
17 Heol-y-Frenhines
18 Pentref Gardd Rhiwbeina
19 Gerddi Melin Y Rhath
20 Parc Y Rhath
21 Llyn a Gerddi Parc Y Rhath
22 Sain Ffagan
23 Heol Eglwys Fair
24 Hen Llaneirwg
25 Tredegarville
26 Plas Winsor
27 Wordsworth Avenue

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2012 Arolwg Ordnans 100023376

## Cyfarwyddiadau Erthygl 4

Mewn Ardaloedd Cadwraeth sy'n sensitif i newid bychan, bydd rheolaethau ychwanegol hefyd yn berthnasol. Fe'i gelwir hefyd Erthygl 4 Cyfarwyddiadau. Pan fo Cyfarwyddyd efallai bydd angen caniatâd ar gyfer addasiadau bychain i adeilad sy'n wynebu'r briffordd, ac na fyddai angen caniatâd cynllunio fel arfer. Mae hyn i sicrhau bod datblygiadau bychain mewn Ardaloedd Cadwraeth yn cyd-fynd â chymeriad arbennig. Mae Cyfeiriad hefyd yn chwarae rôl bwysig o ran cynnal manylion archeolegol gwreiddiol. Nid oes angen ffioedd ar gyfer cyflwyno cais o ganlyniad Erthygl 4 Cyfarwyddyd. Am fwy o gyngor cysylltwch â Rheolaeth Datblygiad ar (029) 20871135.






## Sut all Cymunedau Lleol Gyfrannu?

Mae'r Cyngor wedi sefydlu nifer o Grwpiau Cynghori Ardaloedd Cadwraeth i gynrychioli diddordebau lleol mewn Ardaloedd Cadwraeth. Mae'r grwpiau hefyd yn rhoi sylwadau ar geisiadau cynllunio mewn Ardaloedd Cadwraeth cyn eu hasesiad gan y Pwyllgor Cynllunio.

Gall cymunedau a grwpiau lleol hefyd helpu i sicrhau bod Ardal Gadwraeth yn derbyn gofal a thrwy weithio mewn partneriaeth, hyrwyddo dealltwriaeth o bwysigrwydd hanesyddol yr ardal.

Os hoffech gyngor ar Ardaloedd Cadwraeth Caerdydd neu os gallwch ddarparu gwybodaeth, sy'n cyfrannu at ddealltwriaeth o'u cymeriad arbennig cysylltwch â'r Tîm Cadwraeth.




## Cysylltu â


### Tîm Cadwraeth

Ffôn (029) 2087 3404/3485/3480
E-bost conservation@cardiff.gov.uk

### Swyddogion Cadwraeth Coed

Ffôn (029) 2087 3189
E-bost treeprotection@cardiff.gov.uk

### Rheolaeth Datblygiad

Ffôn (029) 2087 1135
E-bost developmentcontrol@cardiff.gov.uk

Cynllunio Strategol a'r amgylchedd
Dinas a Sir Caerdydd,
CY4,
Adeilad y Cwrt,
Neuadd y Sir,
Glanfa Iwerydd,
Caerdydd. CF10 4UW